



Cynllun Sychder Terfynol

Mehefin 2018

Crynodeb gweithredol

Crynodeb gweithredol

Mae'r cynllun sychder hwn yn amlinellu ein hymagwedd at reoli cyflenwadau dŵr er mwyn sicrhau bod digon o ddŵr ar gael bob amser i bron saith miliwn o gwsmeriaid a 200,000 o fusnesau ar draws Gogledd-orllewin Lloegr, hyd yn oed yn ystod amodau sychder.

Cynhyrchwyd y cynllun hwn gan United Utilities Water Limited yn dilyn newid perthnasol, a bwriedir iddo ddisodli ein Cynllun Sychder Terfynol 2014.

Mae'r newid perthnasol yn deillio o adroddiad asesiad amgylcheddol wedi'i ddiweddarau ar gyfer ein hopsiwn trwydded sychder Crummock yng Ngorllewin Cumbria a ddangosodd ostyngiad o ran faint o ddŵr sydd ar gael i'w echdynnu o'r gronfa ddŵr hon. Credwn fod y newid hwn, ynghyd â datblygu ffynhonnell newydd o ddŵr (tyllau turio De Egremont, i gynnal Ennerdale yng Ngorllewin Cumbria) yn arwain at newid perthnasol i'n cynllun sychder cyhoeddedig presennol.

Mae'r cynllun hwn yn crynhoi'r camau yr ystyriwn eu cymryd yn ystod amodau sychder i ddiogelu cyflenwadau dŵr hanfodol i'n cwsmeriaid a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd gymaint â phosibl. Mae cyflenwad dŵr dibynadwy yn hanfodol i'n cwsmeriaid yn eu bywydau beunyddiol.

Nid yw sychder yn dilyn patrwm penodol a gall ddigwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, gan ddangos nodweddion gwahanol. Felly, mae ein cynllun yn amlinellu amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael yn achos sychder, a'r prosesau a'r graddfeydd amser sy'n ofynnol i'w rhoi ar waith. Mae ein cynllun yn cynnwys gwersi a ddysgwyd yn ystod sychder 1995/96 yn ogystal â sychder mwy diweddar yn 2003 a 2010. Gellir defnyddio'r cynllun ar gyfer unrhyw amodau sychder, gan gynnwys rhai sy'n fwy difrifol nag a gofnodwyd yn flaenorol.

Mae mwy na 90% o'r dŵr a gyflenwn i gartrefi a busnesau ledled Gogledd-orllewin Lloegr yn dod o afonydd a chronfeydd dŵr, ac mae'r gweddill yn dod o ddŵr daear.

Mae ein rhanbarth wedi'i rannu'n bedwar parth adnoddau dŵr:

- Parth Adnoddau Integredig – rhwydwaith integredig sy'n gwasanaethu De Cumbria, Swydd Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf, Glannau Mersi a'r rhan fwyaf o Swydd Gaer, gan gynrychioli dros 90% o'r holl ddŵr a gyflenwir gennym ni a'r mwyafrif helaeth o'n cwsmeriaid
- Parth Adnoddau Gorllewin Cumbria – sy'n gwasanaethu ardaloedd Workington, Whitehaven, Wigton a Solway
- Parth Adnoddau Caerliwelydd – sy'n gwasanaethu ardal Caerliwelydd
- Parth Adnoddau Gogledd Eden – sy'n gwasanaethu rhan ogleddol, wledig rhanbarth Eden yn Cumbria.

Parth Adnoddau Gorllewin Cumbria sy'n fwyaf sensitif i sychder oherwydd bod ei gyfnod tyngedfennol, sef yr amser y mae'n ei gymryd i ffynonellau dŵr fynd o fod yn llawn i wag yn ystod y sychder gwaethaf, yn fyr (2 i 3 mis). Felly, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym yn y parth hwn yn ystod sychder ond, yn yr un modd, yn dilyn glaw, gall y ffynonellau ail-lenwi ymhen ychydig ddyddiau. Mae Gorllewin Cumbria hefyd yn cynnwys nifer o safleoedd amgylcheddol sensitif sydd wedi'u dynodi o dan ddeddfwriaeth, ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni ddiogelu'r safleoedd hyn.

Crynodeb gweithredol

Mewn sychder, mae cydbwysedd gofalus rhwng cyflenwad dŵr i'r cyhoedd a diogelu'r amgylchedd, a chredwn fod y cynllun hwn yn taro'r cydbwysedd hwnnw.

Er mwyn darparu cyflenwad dŵr sicr i'n cwsmeriaid, rydym ni'n defnyddio rheolau a pholisïau gweithredu yn ogystal â chynnal gwaith monitro mynych ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r data hwn yn golygu ein bod ni'n gallu adnabod amodau sychder, gan amlygu'r angen am unrhyw fesurau rheoli sychder a'u hamseru. Mae llawer o'n camau rheoli sychder yn rhan o'n gweithrediadau arferol i gael dŵr i dapiau cwsmeriaid.

Byddai'r rheolaeth ar gyflenwadau dŵr yn ystod amodau sychder a'r camau a gymerir yn adlewyrchu difrifoldeb, graddfa ddaearyddol a chyflymder datblygiad y sychder. Yn gyntaf, byddem yn cymryd camau gweithredu sydd o dan ein rheolaeth ein hunain ac yna'n defnyddio pwerau cyfreithiol penodol a/neu fesurau eithriadol mewn amodau sychder difrifol yn unig.

Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno pedwar sbardun sychder ar gyfer pob parth adnoddau, wedi'u seilio ar lefelau cronfeydd dŵr neu gyfran y drwydded echdynnu dŵr flynyddol a ddefnyddiwyd. Mae'r sbardunau yn bwyntiau penderfynu, er mwyn ystyried pa fesurau'n sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r sefyllfa sydd ohoni.

Mae'r cynllun yn cynnwys ystod o gamau gweithredu i reoli sychder ([Ffigur 1](#): Crynodeb o sbardunau sychder a chamau gweithredu cysylltiedig), sy'n gysylltiedig â'r sbardunau sychder, gan gynnwys:

- Camau gweithredol
- Camau cyfathrebu
- Camau ar ochr y galw (ymgyrchoedd effeithlonrwydd dŵr, cyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio dŵr, Gwaharddiad Defnydd Dros Dro, gorchymyn sychder i wahardd defnydd nad yw'n hanfodol)
- Camau rheoli gollyngiadau
- Camau ar yr ochr gyflenwi (ffynonellau nas comisiynwyd; cludo dŵr mewn tanceri)
- Camau trwyddedau/gorchymynion sychder.

Cymerir camau dim ond os ydynt yn berthnasol i'r sefyllfa sychder sydd ohoni. Gall camau gweithredu ynghylch sychder gael eu cymhwyso naill ai ar draws y cwmni cyfan, fesul parth adnoddau neu i dargedu ardal ddaearyddol benodol yn dibynnu ar natur y sychder sydd ohoni ar y pryd.

Mae ein cynllun wedi'i seilio ar ganllawiau cyfredol a deddfwriaeth gyfredol, gan gynnwys Canllawiau Cynllun Sychder Defra (Defra, Rhagfyr 2015) a Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân o'r opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Mae unrhyw opsiynau y dangoswyd bod ganddynt y potensial i effeithio'n sylweddol ar safleoedd dynodedig (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar), wedi bod yn destun Asesiad Priodol manwl. Gall opsiwn sychder sy'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle gwarchodedig gael ei gynnwys yn y cynllun ar yr amod nad oes unrhyw atebion eraill, a phan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod rhesymau hanfodol a thra phwysig er budd y cyhoedd dros gynnwys yr opsiwn a bod mesurau cydbwysu addas yn cael eu mabwysiadu. Dyma'r sefyllfa yn achos yr opsiwn gorchymyn sychder ar gyfer Llyn Ennerdale sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn.

Byddai ceisiadau am drwyddedau neu orchymynion sychder yn cael eu gwneud ar ôl i gyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio dŵr ddechrau. Isafbwynt ein lefel gwasanaeth ar gyfer cyflenwi dŵr yw peidio â

Crynodeb gweithredol

gweithredu Gwaharddiadau Dros Dro ar Ddefnydd a thrwyddedau neu orchmynion sychder fwy nag unwaith ym mhob 20 mlynedd ar gyfartaledd, a pheidio â defnyddio gorchmynion sychder i gyfyngu ar ddefnydd nad yw'n hanfodol o ddŵr fwy nag unwaith ym mhob 35 mlynedd ar gyfartaledd.

Nid yw'r cynllun sychder hwn yn cynnwys defnyddio toriadau ar rota, lle mae cyflenwadau dŵr yn cael eu hatal am gyfnod bob dydd, na safbibellau i ddogni cyflenwadau hanfodol (a weithredir trwy orchmynion sychder brys). Mae hyn yn gyson â'r lefel gwasanaeth yn ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (United Utilities, 2015) ac mae ganddo gydbwysedd rhwng cwsmeriaid ac effeithiau amgylcheddol. Caiff y lefel gwasanaeth ei hadolygu fel rhan o broses y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn hytrach na'r cynllun sychder hwn.

Mae ein hasesiad o sicrwydd y cyflenwad dŵr yn awgrymu pe bai'r sychder gwaethaf erioed a gofnodwyd yn digwydd eto, na fydd ein cronfeydd yn gwacáu ond byddant yn cyrraedd lefelau isel iawn. Cyn i hynny ddigwydd, byddai'n rhaid i ni weithredu i ddiogelu cyflenwadau dŵr rhag ofn y byddai'r sychder yn fwy difrifol nag a gofnodwyd erioed o'r blaen. O ganlyniad, byddai angen gweithredu cyfyngiadau ar ddefnyddio dŵr a thrwyddedau neu orchmynion sychder cyn cyrraedd lefelau isaf oll y cronfeydd dŵr er mwyn diogelu cyflenwadau dŵr.

Adolygwyd y ddogfen hon i asesu sensitifrwydd gwybodaeth o safbwynt diogelwch cenedlaethol ac ni chredwyd bod angen eithrio unrhyw wybodaeth. Nid oes unrhyw wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol wedi cael ei heithrio o'r cynllun hwn.

Caiff cynlluniau sychder eu diweddarau bob pum mlynedd (neu'n gynharach yn achos newid perthnasol), a byddem yn disgwyl i'r cynllun hwn fod ar waith hyd at 2021. Darperir diweddariadau blynyddol ar y cynllun sychder yn rhan o'n Hadolygiad Adnoddau Dŵr blynyddol – mae'r rhain ar gael ar ein gwefan (corporate.unitedutilities.com/waterresourcesplan).

Crynodeb gweithredol

Ffigur 1: Crynodeb o sbardunau sychder a chamau gweithredu cysylltiedig

Statws	Crynodeb o weithgarwch arferol	
Gweithredu arferol Uwchlaw pob sbardun sychder	Rhaglen effeithlonrwydd dŵr barhaus i arbed 3 MI/d bob blwyddyn	
	Rheoli gollyngiadau i gynnal gollyngiadau ar y lefel economaidd gynaliadwy	
	Gwneud y gorau o'r system gyflenwi i gydbwyso cost a risg sychder posibl	
	Cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch materion adnoddau dŵr yn rheolaidd	
Statws	Crynodeb o gamau ychwanegol (os ydynt yn briodol mewn sychder penodol)	Amcangyfrif o'r amser i'w gweithredu
Mwy o risg o sychder Islaw Sbardun 1 ar gyfer un ffynhonnell o leiaf Tebygolrwydd o ryw 1 mewn 3 yn ystod unrhyw flwyddyn Tua 14 diwrnod cyn y sbardun nesaf	Sefydlu strwythur rheoli sychder United Utilities	3 diwrnod
	Cyflwyno cynllun gweithredu sychder i Asiantaeth yr Amgylchedd a'i drafod	1 wythnos
	Mwy o gyfathrebu ynghylch defnyddio dŵr yn effeithlon	1 wythnos
	Gwneud y mwyaf o'r system gyflenwi i reoli risg sychder posibl	Parhaus
Sychder posibl Islaw Sbardun 2 ar gyfer un ffynhonnell o leiaf Tebygolrwydd o ryw 1 mewn 5 yn ystod unrhyw flwyddyn Tua 7-14 diwrnod cyn y sbardun nesaf	Gwelliannau ychwanegol i gyfathrebu ynghylch defnyddio dŵr yn effeithlon – cysylltiad â thywydd sych. Hysbysebion yn y wasg / ar y radio	1 wythnos
	Sefydlu diweddariadau rheolaidd i randdeiliaid	3 diwrnod
	Gwella gweithgareddau rheoli gollyngiadau	1 wythnos
	Dechrau'r broses o ddefnyddio ffynonellau cyflenwi wrth gefn	1-6 mis
Rhybudd o sychder Islaw Sbardun 3 ar gyfer un ffynhonnell o leiaf Tebygolrwydd o ryw 1 mewn 12 yn ystod unrhyw flwyddyn Tua 28 diwrnod cyn y sbardun nesaf Tua 21-35 diwrnod cyn y sbardun nesaf	Cyflwyno cyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio dŵr gydag ymgyrch gyfathrebu helaeth	3 diwrnod
	Dechrau'r cyfnod cynrychiolaeth ar gyfer cyflwyno Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnydd	3 diwrnod i'w ddechrau; 3-4 wythnos i'w gwblhau
	Parhau â'r broses o ddefnyddio ffynonellau cyflenwi wrth gefn	1-5 mis
	Gwneud cais am drwyddedau/gorchmynion sychder	1 wythnos

Crynodeb gweithredol

<p>Sychder</p> <p>Islaw Sbardun 4 ar gyfer un ffynhonnell o leiaf</p> <p>Tebygolrwydd o ryw 1 mewn 20 yn ystod unrhyw flwyddyn</p>	Cyflwyno Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnydd gydag ymgyrch gyfathrebu helaeth	Yn fuan ar ôl croesi'r sbardun
	Parhau â'r broses o ddefnyddio ffynonellau cyflenwi wrth gefn	3-6 mis
	Gweithredu pwerau a roddwyd o dan drwyddedau / gorchmynion sychder	Ar adeg croesi'r sbardun neu'n fuan wedi hynny
	Gwneud cais am orchymyn sychder i gyfyngu ar ddefnydd nad yw'n hanfodol, a'i gyflwyno	Yn dibynnu ar lefel y galw am ddŵr gan gwsmeriaid

* Sylwer, mae'r sbardunau sychder a'r camau gweithredu yn Llyn Ennerdale ym Mharth Adnoddau Gorllewin Cumbria yn wahanol i'r rhai sydd wedi'u cyflwyno uchod. Bydd cyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio dŵr yn dechrau'n gynt yn ystod statws 'sychder posibl' (Sbardun 2) i sicrhau bod cyfyngiadau ar y galw ar waith cyn gwneud cais am orchymyn sychder (Sbardun 3) yn y safle sensitif hwn, a bydd cyfnod 7 diwrnod yn bodoli rhwng Sbardunau 2 a 3 i ganiatáu am hyn. Rhoddir Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnydd ar waith pan gyrhaeddir statws 'sychder' (Sbardun 4) cyn bod angen gweithredu gorchymyn sychder yn Ennerdale. Yn ogystal, bydd dŵr wedi'i drin o'r Parth Adnoddau Integredig yn dechrau cael ei gludo mewn tanceri ar adeg Sbardun 3